# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-17-06(p.4)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Etholiadau ac Ehangu Cyfranogiad

#### 1. Diben

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am waith y Grp Cynllunio Etholiadau a'r cynnydd a wnaed yn yr Ymgyrch i Ehangu Cyfranogiad. Mae hyn yn dilyn fy adroddiad i'r Pwyllgor, a gyfarfu ar 21 Medi 2005 ac yna ar 15 Mawrth 2006.

#### Grp Cynllunio Etholiadau

#### 2. Crynodeb

Sefydlwyd y Grp Cynllunio Etholiadau ym mis Medi 2005. Fforwm yw hwn i drafod gweithdrefnau etholiadol, bod yn gyfrwng i fynd i'r afael â phroblemau posibl a helpu i baratoi etholiadau a rhannu arferion gorau mewn ffordd strategol.

Mae aelodaeth y grp yn cynnwys swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Swyddfa Cymru, Bryn Parry Jones, Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro, sy'n cynrychioli Swyddogion Canlyniadau, Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru, y Comisiwn Etholiadol a chynrychiolwyr y Pleidiau Gwleidyddol. Cadeirir y cyfarfodydd gan Dr Hugh Rawlings.

#### 3. Y Cefndir

Yn 2003, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i'r Comisiwn Etholiadol lunio adroddiad ar etholiadau lleol Cymru yn 2004. Comisiynwyd yr adroddiad i greu meincnod ar gyfer etholiadau yng Nghymru a hwn oedd y cyntaf gan y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau lleol yn y DU. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw, o'r enw 'Etholiadau Lleol yng Nghymru 2004', ym mis Rhagfyr 2004.

Un o argymhellion yr adroddiad oedd sefydlu grp cynllunio etholiadau i Gymru gyfan dan arweiniad Llywodraeth y Cynulliad.

Mewn ymateb i hyn, ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad yn eang â'r carfanau â diddordeb. Ystyriwyd bod angen ymgynghoriad o'r fath oherwydd swyddogaethau statudol cyfyngedig iawn y Cynulliad yn y maes hwn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2005, cyhoeddais fod yr ymatebwyr wedi llawn gymeradwyo argymhelliad y Comisiwn am grp cynllunio etholiadau ac i Lywodraeth y Cynulliad arwain y ffordd.

## 4. Hynt y gwaith hyd yma

Derbyniodd y Grp Cynllunio Etholiadau fwletinau rheolaidd gan swyddogion yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar hynt Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 drwy'r senedd. Er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y ddeddfwriaeth newydd, trefnodd Llywodraeth y Cynulliad seminar i randdeiliaid, gyda chefnogaeth y Comisiwn Etholiadol a'r Adran Materion Cyfansoddiadol.

Cynhaliwyd y Seminar ar 3 Gorffennaf yng Ngwesty'r Copthorne, Caerdydd. Agorwyd y digwyddiad gan Bridget Prentice AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol, gan amlinellu prif ddarpariaethau'r Ddeddf Gweinyddu Etholiadol; siaradais innau am y paratoadau ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac esboniodd Sam Younger, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol, y dyletswyddau newydd sy'n cael eu gosod ar swyddogion canlyniadau a chofrestru a'r safonau perfformiad y mae'r Comisiwn wrthi'n eu datblygu.

Cynrychiolwyd pob un o'r 22 awdurdod lleol. Roedd dirprwyaeth o swyddogion yr Adran Materion Cyfansoddiadol wrth law i ateb cwestiynau, yn ogystal â nifer o gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol.

Glyn Mathias o'r Comisiwn Etholiadol a Hugh Rawlings gadeiriodd y sesiynau llawn. Roedd sesiynau'r gweithdy yn fywiog a chodwyd nifer o gwestiynau a phwyntiau i'w hystyried.

Mae swyddogion yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y grp cynllunio drwy roi bwletinau ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 a phrosiect y Gofrestr Etholwyr Gydlynol Ar-lein (CORE).

Cyfrifoldeb Swyddfa Cymru yw drafftio Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl, a fydd yn rheoli'r ffordd y cynhelir etholiadau'r Cynulliad 2007. Mae Gorchymyn diwygiedig yn cael ei ddrafftio i ymgorffori'r newidiadau a gyflwynwyd drwy Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006. Ym mhob cyfarfod, rhoddwyd gwybodaeth i'r grp cynllunio, ymgynghorwyd â hwy ar ddrafftio'r Gorchymyn ac maent wedi cael gwybod beth yw'r amserlen debygol ar gyfer cyflwyno'r Gorchymyn.

Yn ogystal â darparu rôl gydlynol yn y trefniadau ar gyfer cynllunio etholiadau nesaf y Cynulliad a hyrwyddo arferion gorau, fe'i gwnaed yn bosibl gan y Grp Cynllunio Etholiadau i'r holl asiantaethau hynny sy'n gysylltiedig ag etholiadau a Swyddog Canlyniadau Blaenau Gwent ddod at ei gilydd ar fyrder, cyn gynted ag yr oedd yn hysbys bod is-etholiad ddwbl ar y gweill.

Mae aelodau'r grp cynllunio wedi trafod materion fel:

dulliau adnabod personol - mae Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno dulliau adnabod personol, ee llofnod a dyddiad geni, ar gyfer pleidleisiau post a dirprwy.

Bydd angen gwirio dulliau adnabod personol ac, ar gyfer pleidleisiau a dderbynnir ar ddiwrnod pleidleisio, bydd angen eu gwirio cyn gallu dechrau'r cyfrif.

cynlluniau peilot etholiadol - mae Gweinyddwyr Etholiadol wedi mynegi diddordeb mewn gweithredu cynlluniau peilot etholiadol yn etholiadau llywodraeth leol 2008. Mae'r gweinyddwyr mewn cysylltiad â'r Adran Materion Cyfansoddiadol a chyflenwyr ynghylch hyn. Mae'r swyddogion hefyd yn mynd i gyfarfodydd Bwrdd Moderneiddio Etholiadol yr Adran Materion Cyfansoddiadol sydd newydd ei greu, ac sy'n arwain cynlluniau peilot.

- Deddf Llywodraeth Cymru 2006 - mae'r Comisiwn Etholiadol wrthi'n trafod gyda'r Llywydd ynghylch y pwerau newydd i hyrwyddo etholiadau'r Cynulliad.
- Mae'r Grp yn llunio cylchlythyr chwarterol sy'n targedu ymarferwyr etholiadol a swyddogion canlyniadau.
- Mae is-grp, y Grp Gorchwyl Etholiadol, wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y trefniadau gweinyddol manwl ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

### 5. Y Camau Nesaf

Bydd y Grp Cynllunio Etholiadau yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf a chyn etholiadau lleol 2008.

### Ehangu cyfranogiad

### 6. Crynodeb

Mae Llywodraeth y Cynulliad, gan gydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), SOLACE, y Comisiwn Etholiadol, mewn partneriaeth â sefydliadau ac awdurdodau lleol eraill, wedi adfywio ac ymestyn yr Ymgyrch Ehangu Cyfranogiad, a gynhaliwyd cyn etholiadau llywodraeth leol 2004. Bydd yr Ymgyrch yn ceisio codi ac adnewyddu ymwybyddiaeth, diddordeb a chyfranogiad mewn democratiaeth leol hyd etholiadau lleol 2008, gan gynnwys cynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymgeiswyr a fydd yn sefyll yn yr etholiadau hyn.

Mae'r Ymgyrch, er ei bod yn eang ei chwmpas, yn canolbwyntio'n benodol ar gyflawni'r amcanion canlynol:-

- cefnogi strategaethau ehangach i adfywio diddordeb y cyhoedd mewn democratiaeth leol fel y rhai sy'n ceisio annog pobl i bleidleisio ac ymarfer eu hawliau fel dinasyddion;
- cefnogi strategaethau ehangach i hyrwyddo cyfranogiad mewn democratiaeth leol, materion cymunedol ac ymarfer eu hawliau fel dinasyddion;
- cynyddu gwybodaeth y cyhoedd am rôl a gwerth yr aelod etholedig lleol;
- hyrwyddo rôl yr aelod etholedig, sy'n datblygu, a'r gwerthoedd a'r ymddygiad sydd eu hangen i arwain a datblygu democratiaeth gyfranogol (ee ymhlith ymgeiswyr a chynghorwyr presennol);
- cynyddu diddordeb mewn ymgeisio mewn etholiadau lleol;
- hyrwyddo amrywiaeth ymhlith y cynrychiolwyr a etholir yn lleol ac ehangu'r sylfaen o bobl

leol sy'n dangos diddordeb mewn sefyll mewn etholiad;
- paratoi ymgeiswyr ar gyfer y gwaith (drwy wybodaeth gadarn am y rôl, gwaith llywodraeth leol a'r gwasanaethau cyhoeddus y mae llywodraeth leol yn eu darparu).

Ni fydd yr uchod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â strategaeth a thechnegau ymgyrchu ar gyfer etholiad. Mae hon yn Ymgyrch yr ydym am ei gweithredu â chefnogaeth lawn pob plaid wleidyddol. Nid creu cronfa o ymgeiswyr annibynnol amrywiol yw'r nod, ond yn hytrach weithio ochr yn ochr â phleidiau gwleidyddol i gynyddu amrywiaeth eu cronfa hwy o ymgeiswyr.

## 7. Y Cefndir

Gwnaeth adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru ("Comisiwn Sunderland") nifer o argymhellion gyda'r nod o annog pobl i sefyll fel ymgeiswyr yn ei adroddiad yn 2002. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ar y cyd â CLlLC yn ystod 2002/03 gyda'r nod o annog pobl i sefyll fel ymgeiswyr yn etholiadau llywodraeth leol 2004.

Er bod etholiadau 2004 wedi arwain at ddarlun ychydig yn well o ran dosraniad oedran a rhyw gwahanol ymgeiswyr (cynyddodd cyfran y cynghorwyr sy'n fenywod o 19.5% ym 1999 i 21.8% yn 2004 a gostyngodd oedran cyfartalog cynghorwyr o 59 i 57), mae llawer o le o hyd i wella. Roedd llai nag un y cant o'r cynghorwyr yn iau na 25 oed pan gawsant eu hethol yn 2004 a llai na 5% yn iau na 35 oed. Dim ond 12% o'r cynghorwyr oedd yn honni bod â phlant oedd yn ddibynnol arnynt. Dim ond 23% oedd mewn cyflogaeth lawnamser. Mae llai nag un y cant o'r cynghorwyr yn dod o gefndir nad yw'n wyn. Hefyd mae niferoedd uchel iawn o seddi diymgeisydd yn ardaloedd rhai awdurdodau.

Heb fod eisiau bychanu cyfraniad aelodau hn awdurdodau lleol sy'n ddynion, ac sy'n meddu ar gyfoeth o brofiad bywyd a'r gwasanaeth cyhoeddus, mae'n siwr y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn croesawu dewis ehangach yn y math o ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad, er mwyn i siambr y cyngor adlewyrchu i raddau mwy y gymuned y mae'n ei gwasanaethu.

## 8. Hynt y gwaith hyd yma

Mae fy swyddogion wedi llunio Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CLlLC, SOLACE ac, ar lefel gynghorol, y Comisiwn Etholiadol, er mwyn datblygu'r Ymgyrch Ehangu Cyfranogiad. Maent wedi bod ar ymweliad casglu gwybodaeth â Chyngor Dinas Bryste, sydd wedi cynnal cynllun cysgodi a enillodd wobr, mewn cydweithrediad ag "Operation Black Vote". Dechreuwyd trafod hefyd gyda chynrychiolwyr cyflogwyr er mwyn edrych ar y rhwystrau y mae'r rheini sydd mewn cyflogaeth ac sy'n ystyried sefyll fel ymgeiswyr yn eu hwynebu; mae hyn yn unol ag un o argymhellion adroddiad Syr Jeremy Beecham, "Ar Draws Ffiniau". Hyd yma, mae'r ymateb oddi wrth gyflogwyr wedi bod yn siomedig o ran y niferoedd sydd wedi dangos unrhyw ddiddordeb yn yr Ymgyrch.

Lansiwyd yr Ymgyrch yn y Gynhadledd Democratiaeth Leol yn Llandrindod ar 16 Hydref. Dyma brif themâu'r Gynhadledd:-

- Ystyried y rhwystrau a'r cyfleoedd o ran democratiaeth leol;
- Ystyried rôl fodern y cynghorydd;

- Annog pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol, materion cymunedol ac ymarfer eu hawliau fel dinasyddion;
- Hyrwyddo amrywiaeth ymhlith cynrychiolwyr a etholir yn lleol;
- Cynnwys cyflogwyr, sefydliadau cyfle cyfartal a'r gymuned ehangach mewn democratiaeth leol.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr o bleidiau a sefydliadau gwleidyddol, llywodraeth leol a chenedlaethol, cyflogwyr, cyrff cyfle cyfartal, sefydliadau ieuenctid a chyrff y sector gwirfoddol i'r Gynhadledd. Methodd cynrychiolwyr cyflogwyr ac uwch swyddogion y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru â bod yn bresennol ac roedd hynny'n siom.

## 9. Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio â'i phartneriaid ar raglen o weithgareddau sy'n cynnwys:-

- Mentora - cynnwys y rhai sydd â diddordeb mewn sefyll mewn etholiad a'r rhai a etholir yn sgil hynny;
- Gweithio gydag "Operating Black Vote" ynghylch cyflwyno cynllun cysgodi sy'n targedu'n benodol grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- Gweithio gyda phleidiau gwleidyddol ar recriwtio ac amrywiaeth;
- Llunio canllaw i ymgeiswyr;
- Gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol mewn "Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth".
- Ymgyrch cyfryngau cyhoeddus, gan gynnwys gwefan benodol ar gyfer yr Ymgyrch;
- Llunio Pecynnau Gwybodaeth ar gyfer cynghorwyr newydd.

## Grp Cynllunio Etholiadau ac Ehangu Cyfranogiad

## 10. Cyllid

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2006/07 talodd Llywodraeth y Cynulliad am y seminar ar Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006, sef £4000 ac mae wedi dyrannu £22,000 ar gyfer yr Ymgyrch Ehangu Cyfranogiad. Telir costau'r ddau brosiect o Gyllideb Amrywiol yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.

Ni chytunwyd yn derfynol ar y gyllideb ar gyfer 2007/08. Bydd Cyllideb Amrywiol yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol yn parhau i dalu costau'r ddau brosiect.

## 11. Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu Cymryd

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

Sue Essex AC
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Enw Cyswllt y Polisi: Frank Cuthbert,
y Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol

Ffôn: 029 20823094